




Cadw


Casgliad Priodas



Gyda'ch help chi, mae Cadw'n gweithio i sicrhau amgylchfyd hanesyddol, hygyrch ac wedi'i warchod yn dda i Gymru. Nod Cadw yw:

- ♥ Gwarchod treftadaeth Cymru
- ♥ Cynnal cymeriad arbennig tirwedd Cymru
- ♥ Helpu pobl i ddeall ac ystyried eu hanes
- ♥ Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i les pobl yng Nghymru

Drwy ôdewis lleoliad o Gasgliad Cadw ar gyfer eich bendithion neu ffotograffau priodas, rydych yn cyfrannu at y nodau hyn. Mae'r holl incwm a gynhrychir trwy ôdigwyddiadau, priodasau a ffotograffiau yn cynnal mentrau, prosiectau a rhaglenni gwarchod Cadw.





Castell Coch

Gelwir y castell hwn yn gastell stori dylwyth teg oherwydd ei leoliad mewn coedwig a'i ðri thŵr a thyred syfrdanol. Mae'n weledigaeth allan o lyfr stori.

Mae Castell Coch wedi'i leoli cwta 5 milltir o Gaerdydd, ac mae'n lleoliad rhyfeddol sy'n edrych dros brifddinas Cymru a'r wlad o'i chwmpas.

Wedi'i greu ar gyfer trydydd ardalydd Bute yn y 19eg ganrif, mae'r castell yn cyfuno ffantasi Gothig moethus â phensaernïaeth Fictoraidd uchel ac mae'n lleoliad perffaith ar gyfer priodas ramantus.

Cynhelir seremonïau sifil yn Y Parlwr. Yn edrych dros le tân moethus, cerfluniau o dduwiesau Groegaidd, a murluniau hardd, mae nenfwd liwgar sydd wedi'i haddurno â gloynnod byw a'i gorffen gyda rhaeadr o sêr ac adar a baentiwyd gan law.

Castell Coch, Caerdydd, CF15 7JS

☎ 02920 810101

✉ CastellCoch@llyw.cymru

Capasiti Brecwast Priodas: 30

Llun: Y Parlwr – Castell Coch



Plas Mawr

Y tŷ trefol Elisabethaidd cadwedig gorau ym Mhrydain.

Mae Plas Mawr wedi'i leoli yng nghanol Conwy. Mae'r tŷ tref digyffwrdd hwn, a adeiladwyd yn y 16eg ganrif, yn dominyddu tai a strydoedd coblog Conwy.

Mae'r adeilad coeth, addurnedig hwn gyda'i olwg fonheddig, yn adlewyrchu'r cyfoeth a'r diffuantrwydd a oedd yn ffasïynol yn Llundain ar y pryd. Y tu mewn, fe welwch ystafelloedd mawreddog, lliw cyfoethog ac addurn cywrain. Defnyddiwyd yr adeilad eiconig hwn fel cartref, ysgol a llys. Heddiw, mae'n enghraifft wych o bensaernïaeth hanesyddol ac yn lleoliad hardd ar gyfer priodas.

Mae'r tŷ, y cwrtau a'r ardd wedi cael eu hadfer yn ofalus gan Cadw ac maent yn gefndir gwych ar gyfer ffotograffiau. Cynhelir seremonïau yn y Siambr Fawr, sydd wedi'i haddurno â nenfwd â phatrwm geometregol a phaneli muriog. Mae arwyddluniau a blodau lliwgar, ynghyd â ffenestri mawr yn dod â golau i'r ystafell hon. Mae lle tân trawiadol yng nghanol yr ystafell a dyma ganolbwynt lle gall cyplau gyfnewid addunedau o flaen anwyliaid.

Tŷ Trefol Elisabethaidd Plas Mawr, Y Stryd Fawr, Conwy LL32 8DE

☎ 01492 580167

✉ PlasMawr@llyw.cymru

Capasiti Brecwast Priodas: 40

Llun: Siambr Fawr, Plas Mawr



Llys a Chastell Tretŵr

Tŷ cwrnt canoloesol o'r 15fed ganrif sydd wedi'i
adfer ac sydd gerllaw castell amlwg o'r 12fed ganrif.

Mae gwaith coed godidog wedi goroesi yma
gyda ffenestri mewn arddull glasurol yn dyddio'n
ôl i'r 1630au. Mae'r castell a'r ardd ganoloesol a
ailgrëwyd yn hyfryd y tu mewn i'r Llys, yn swatio
ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Mae'n lleoliad perffaith ar gyfer ffotograffiau
hudol y byddwch yn eu trysori am byth.

Mae tair ardal ar gael ar gyfer eich seremoni
briodas: y Neuadd Fawr ar lefel y ddaear, y gellir
ei chyrraedd trwy'r cwrnt coblog, a dwy ystafell
ar y llawr cyntaf, y gellir eu cyrraedd ar risiau.

Os ydych chi am wahodd mwy o westeion,
mae hefyd yn bosibl i babell fawr gael ei gosod
ger tir y castell gyda chaniatâd arbennig.

Yn unigryw i'r safle hon mae bwthyn clyd y
gellir ei archebu am gost ychwanegol. Mae gan
y bwthyn olygfeydd ysblennydd dros y lleoliad
a'r Mynyddoedd Du. Mae'r lle wedi'i ailwampio
a'i ddylunio'n foethus i greu'r llety perffaith ar
gyfer eich noson gyntaf fel pâr priodasol.

Llys Tretŵr, Crugywel, NP8 1RD

☎ 01874 730279

✉ Tretowercourt@llyw.cymru Capasiti Brecwast Priodas: 40

Llun: Ystafell ar lawr cyntaf Llys Tretŵr



Mae cannoedd o gyplau wedi dewis ein safleoedd hudolus i gynnal eu priodasau ac wedi creu atgofion hyfryd am oes...

“Roedd ein diwrnod Priodas yn ysblennydd a chawsom gymaint o ganmoliaeth gan ein gwesteion am y lleoliad. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ac rwy’n canmol holl staff Cadw am eu gwaith caled a’u dull cadarnhaol o gynllunio digwyddiadau. Roedd y lleoliad yn werth da am arian. Mae gallu dod o hyd i’ch cyflenwyr eich hun yn ffordd wych o ychwanegu’r cyffyrddiadau personol hynny i’ch diwrnod a sicrhau eich bod chi’n derbyn priodas bwrpasol. ”

Priododdd Lowri a David yng Nghastell Caerffili.



“Fy mreuddwyd erioed oedd priodi mewn castell yn y goedwig, felly pan glywson ni fod Castell Coch yn caniatáu priodasau, roedden ni wrth ein boddau. Ni allem feddwl am le gwell i gynnal ein priodas – castell mewn lleoliad mor brydferth sydd wedi’i drwytho mewn hanes ac wedi’i adfer yn gariadus. Roedd ceidwaid y castell yn rhyfeddol o ddefnyddiol wrth wneud ein breuddwydion am briodas unigryw a hardd yn realiti, a rhoi atgofion i ni y byddwn yn eu trysori am byth.”

Priododdd Victoria a Michael yng Nghastell Coch.



“O’r eiliad y gwnaethon ni archebu, roedd y staff ym Mhlas Mawr yn fendigedig; buom yn trafod addurniadau a blodau ar gyfer ein diwrnod, ac fe osododd y staff y rhain yn rhyfeddol i ni ar y diwrnod. Ar ôl y seremoni, cawsom dderbyniad siampên bach yn yr ardd furiog, a oedd yn hyfryd fe a roddodd gyfle gwych i ni gael ffotograffiau... Ar y cyfan, cawsom y diwrnod mwyaf rhyfeddol ac, mewn gwirionedd, ni allem fod wedi gofyn am unrhyw beth arall; roedd Plas Mawr a’r staff yn fendigedig ac rydym yn teimlo’n ffodus iawn ein bod wedi priodi yn y lle rhyfeddol hwn sy’n llechu o fewn muriau tref Conwy.”

Priododdd Chris a Gary yn Plas Mawr.



“Roedden ni’n gwybod ein bod ni eisiau rhywbeth ychydig yn wahanol ar gyfer ein priodas. Roedden ni eisiau lleoliad a oedd yn arbennig i ni a’n gwesteion, a rhoddodd Llys Tretŵr hynny i ni. Roedd y staff mor gyfeillgar, hyblyg a chefnogol. Cawsom y briodas yr oedden ni ei eisiau – nid dim ond templed yr oedd rhywun arall wedi’i ddatblygu. Roedd ein gwesteion wrth eu boddau yn archwilio’r castell tiroedd. Roedd popeth yn berffaith. ”

Priododdd Leah a Anthony yn Nhretŵr.

Llun: Castell Tretŵr

Archebu

**Gallwn gymryd archebion hyd at 13 mis cyn y
dyddiad a ddymunir, ar gyfer pob lleoliad.**

Mae tîm ymroddedig ar gael ym mhob un o leoliadau Casgliad Priodas
Cadw i'ch cynorthwyo i archebu lleoliad eich breuddwydion.

Rydym yn eich annog i weld y lleoliad cyn archebu. Ar ôl archebu,
mae angen blaendal 50% na ellir ei ad-dalu i gadarnhau'r archeb.

**Ewch i dudalennau priodas ein gwefan am fwy o
wybodaeth ac i gwblhau'r ffurflen gais gychwynnol.**



cadw.llyw.cymru/llogi-safle



@CadwWales



@cadwcymru



@cadwcymruwales